YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIV. MAWRTH, 1944. RHIF 3.

Meddyliau Byw.

CASGLIAD GAN L.W.

OFER i weinidog yw canu cloch ei eglwys oni fydd ei fywyd yn gyson a'i alwedigaeth.

* * * *

MAE'R hwn sydd yn cau y ffenestri, ac yna yn beio Duw am ei fod yn byw mewn tywyllwch, ar y ffordd i fod yn anffyddiwr.

* * * *

MAE rhywbeth yn feius yng nghrefydd gwr os bydd yn rhaid i'w wraig ei glywed yn siarad yn yr eglwys cyn gwybod ei fod yn grefyddol.

* * * *

MAE'R sawl na sydd byth yn cyfeiliorni yn gyfeiliornad i gyd.

* * * *

Y PECHADURIAID mwyaf parchus yw'r rhai mwyaf peryglus.

* * * *

NI wna Duw wenu arnom tra y byddom ni yn gwgu ar ein brawd.

* * * *

MAE tunnell o boen yn ysgafnach nag owns o gywilydd.

* * * *

NI chollodd byddin yr Arglwydd erioed frwydr am ei bod yn rhy fychan.

* * * *

YR oedd cymaint o ganeuon nefol yng nghalon Dafydd fel nad oedd raid iddo chwilio am lyfr caneuon i gael cân.

* * * *

Y MAE tri pheth na ddychwelant byth—amser, gair a lefarwyd, a chyfle a esgeuluswyd.

* * * *

Y MAE'R hwn sydd yn achwyn ar ei amgylchiadau yn gwneud ei amgylchiadau yn fwy celyd.

* * * *

Os na feddyliwn fwy na lefarwn yr ydym yn llefaru gormod.

David Davies (Dafy Go).

PUM mlynedd a deugain yn ôl yr ymwelais a Llanbedr y tro cyntaf erioed. Nid pleser yw'r atgof i gyd oherwydd dod yma a wneuthum i sefyll arholiad, ac y mae sôn am arholiad yn rhoi croen gwyddau i mi o hyd Yr own yr adeg honno am gwpla a'r ysgol, ac ni chefais ond pedair blynedd o goleg byth wedyn. I mi y pryd hwnnw yr oedd Llanbedr yn dre fawr, ond y mae wedi tynnu ati ers llawer dydd. Wedi'r arholiad fel y mae gwaethaf y modd yr oedd mor fawr fel yr oedd perigl i mi, grwt o'r wlad, fynd ar goll ynddi. Ni wyddwn ble i gael bwyd ac y mae eisiau bwyd wedi arholiad bob amser. Ond bu hen ffrind yn ddigon caredig i'm gwahodd i fynd gydag ef. Yr oedd yn fwy ffortunus na mi oherwydd yr oedd ganddo berthynasau yma. Dyna'r tro cyntaf i mi ddod i gysylltiad a theulu Dafy Gô, oherwydd yn nhŷ ei fam a'i chwaer y bum y tro cyntaf hwnnw. Ni chefais y fraint o ddiolch i'r hen wraig byth wedyn, ond cefais y mwynhad o ddiolch i'w chwaer ffaeledig, a dweyd gair amdani yn ei hangladd. Nid awgrymaf fod hynyna yn ddigon am y te. Ni wyddwn i am lawer blwyddyn wedyn fod fy hen ffrind y bum yn cydysgolia ag ef yn nai fab chwaer iddo. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Rhyw bum mlynedd yn ddiweddarach yr oedd Sioe Drefach yn ei bri, ac yno yn barnu pedoli, ond odid, y gwelais wr gosgeiddig cydnerth yn anterth ei rym a dyna'r gip gyntaf i mi gael ar Ddafy Gô. Yn y Sioe ef oedd y gwr mawr, ac efallai o hyd, ac ni cheisiaf i ond ei ddarlunio rhwng Sioe Drefach a mynwent Brondeifi—dyna ddau derfyn eithaf y daith i mi.

Erbyn hyn yr wyf innau yma ers naw mlynedd ar hugain, tafell hir o fywyd dyn, ac yn ystod yr amser hwn cefais adnabyddiaeth drylwyr ohono. Y dyddiau cyntaf hynny yr oedd yna lawer o hen ffyddloniaid ym Mrondeifi, ac fe'u gwelaf yr awron—Tim Saer, Dafy'r Hwper, Enoc y Siop, Sam Davies, Coedpark, Lewis Jones, y gweydd, William Hefin Williams (gyda llaw nid wyf yn sicr y gŵyr pwyllgor y Gymanfa Ganu mai aelod o Frondeifi oedd Hefin, ta waeth) ; Tomos y Gô, Gruffydd Davies, Penlan, William Postgwyn, Edwards, Cwmcanol, Gruffydd Jones, Fronwen, y ddau frawd o Frynmeddyg, Tomos Stonecutter, Isaac Edwards, Dafy Gô a llawer eraill y dylaswn eu henwi. Nid erys ond dau o'r bobl nobl hyn i gyd, a'r ddau hynny yn agos iawn i'r gornel. Nid oedd *stylo* wedi dod i'r ffasiwn yr adeg honno. Fe adwaenid pob un wrth ei grefft neu wrth ei fferm. Perthynnai rhyw arbenigrwydd iddynt bob yr un. Fe garwn sylwi arnynt ond nid oes hwyl na hamdden heddiw. Ni wnaf ond awgrymu diniweidrwydd Enoc, craffter meddwl Lewis Jones, cân a sêl Hefin, Dafy'r Hwper a Tomos Stonecutter, hiwmor iach a gwybodaeth gyffredin Gruffydd

Davies a Thim Saer ; boneddigeiddrwydd Fronwen, Cwmcanol a Choedpark, sêl ffein a gwresog Brynmeddyg a ffyddlondeb Dafy'r Gô. Nid yn aml y ceir eglwys a chynifer o gymeriadau amryddawn ynddi. Coffa da amdanynt bob yr un. Y maent wedi blaenu, a minnau yma yn unig yn gofyn yng ngeiriau'r ddrama "Ble ma nhw ?"

Hannai Dafy Gô o deulu o ofaint. Gôf oedd ei dad yn Llwyn, Llanfair, a'r teulu a roes ofaint i'r ardal. Pleser yw gwrando rhamant y gofaint gan Tomos ei frawd hŷn, a gwybod am yr oriau hir a'r huriau prin. Nid yw'n syn felly fod crefftau yn marw. Rhyw drigain a deg o flynyddoedd yn ôl, mwy neu lai, ceir Tomos yn llanc un ar bymtheg oed wedi dysgu'i grefft yn codi'i bac ar ei gefn ac yn cerdded i Lanbedr, ond ble wedyn. Y mae y llanc ifanc yn bwrw coelbren. Y mae yn gadael i'w ffon ei gyfarwyddo, a charwn ei weld yn dal ei ffon ar y scwar gan adael iddi syrthio i'r cyfeiriad a fynnai. Syrthiodd y ffon a'i phen tua Chwmanne, a dyma yntau'n cerdded i Lanymddyfri ac yn gweithio yn Nhrecastell a Defynnog am flwyddyn heb droi am adref. Y gyflog oedd saith a chwech yr wythnos. Ni chredaf i fod Dafydd ychwaith wedi cael blas arian. Cynnil oedd ei fyd drwodd a thro, a'r cynildeb hwnnw wedi lliwio ei holl fywyd. Ni wn a ydyw yn iawn dynnu'r casgliad, ond credaf fod amgylchiadau bywyd yn gosod eu nod ar gymeriad dyn heb yn wybod iddo. O leiaf, yn yr efail, ar y Cyngor ac yn yr eglwys gwr cynnil ydoedd Dafy Gô, a'r cynildeb yn rhwystr i antur. Cynnil ydoedd yn ei syniadau. Nid oedd cwmpas meddwl Tim Saer, Lewis Jones, Gruffydd Davies na Hefin ganddo. Cerdded y llwybr cynnil, canol y ffordd yr ydoedd gan betruso torri dros y ffin a blewynna ar y dolydd breision. Gwn imi ei glwyfo lawer tro wrth bregethu. Ni chytunem ar nemor i bwnc ond cytunem ran amlaf i anghytuno. Yr wyf yma am dynnu fy het iddo ef a llawer un arall am iddynt oddef llanc dibrofiad i sôn am wirioneddau mawr bywyd nes trwblu eu meddyliau cynnil a minnau mor aml yn cicio dros y trasis. Nid oedd raid ond dweyd gair caredig am y mab afradlon i'w yrru o'i bwyll. Y mab hynaf oedd ei ddyn ef. Hwyrach y gwelai ynddo yr un ffyddlondeb—yr un cynildeb a'r un ufudd-dod i draddodiad teulu ag oedd ynddo ef ei hunan. Erbyn hyn gŵyr ef p'un ohonom oedd agosaf i'w lle. Daliaf innau ymlaen i dybio heb weld golau gwell eto.

Wrth yr enw gwelir mai gôf gwlad ydoedd, a chrefftwr o bedolwr. Cipiodd nifer lluosog o wobrau am bedoli, a gwyddid am ei fedr ym mhrif sioeau Lloegr a Chymru. Yr oedd yn bencampwr am bedol, a phe gofynnid i mi gymharu y ddau frawd, dau ôf penigamp, a dau grefftwr, ni wnawn ond dweyd fod Dafydd wedi pedoli i ystad Falcondale drwy'i oes ond troes Tomos y ceffylau o'r drws yr unig dro iddynt gael eu hanfon yno. Yr oedd Dafydd hwyrach yn fwy o *ddiplomat* at wr bonheddig na Thomos.

Y Beibl a'r YMOFYNNYDD oedd clasuron Dafydd, a cherddodd yn ffyddlon i gwrdd ac Ysgol Sul drwy gydol ei oes. Ni ddwedaf ei fod mor ddiddorol athro a Thim Saer neu Deio'r Hwper ond gwnaeth ei oreu yn ffyddlon a difwlch i'r diwedd. Cadwodd yr Ysgol Sul am ugain mlynedd bron yn ddi-fwlch. Nid oedd yn ddarllenwr mawr. Ni chafodd nemor amser na hamdden. Perthyn yr oedd i'r hen oruchwyliaeth, ac adnod oedd i dorri pob dadl ganddo. Pwysleisiai OFN DUW, a cheryddodd fi droion am na buaswn yn pregethu mwy o ofn ac uffern. Yr oedd yn ddigon o uffern i mi weld fod neb yn amau calon Tad gan briodoli i Dduw na wnai yr un tad daearol. Nid yn yr un ffordd y gwelwn Dduw bob yr un.

Fe welir eisiau ein hen ffrind yng nghyfarfodydd y Sul ac yn y dosbarth yn yr ysgol, a gellir aralleirio'r adnod a dweyd,—"Ffyddlondeb a guddia liaws o wendidau." Ni fedr neb wneud ond ei oreu. Nid oedd ei le byth yn wâg. DA WAS DA A FFYDDLON.

Nid dim ond yn yr efail a'r eglwys oedd ei ddiddordeb. Bu ar y Cyngor Tref am dros chwarter canrif, a chefais i y fraint o fod yn gaplan i ddau aelod o Frondeifi a fu yn Feiri'r dref—Lewis Jones a Dafydd Davies. Ymwthia llu i brif gadair y dref ond chwarae teg i Lewis Jones a Dafydd Davies, ni wnaethant hwy. Ni buasai y naill na'r llall wedi'i chymryd onibai am fy ysbryd aflonydd i. Cofiaf fy mod yn ymgomio a'r ddau unwaith ac yn dweyd wrthynt na bu aelod o Frondeifi yn Faer Llanbedr. Gwelais lygaid y ddau yn gloywi a'r naill a'r llall yn addo i'w gilydd ei chymryd yn ei dro—er mwyn Brondeifi. Ofnaf y bydd gennyf lawer i ateb amdano ryw ddydd heblaw hyn. Ychydig a feddyliais yr adeg honno y doi yr un broblem i minnau ac y cawn yr anrhydedd o fod yn Faer y dref am ddwy flynedd a'r ddwy hynny yn flynyddoedd pwysig yn ei hanes. Ni bum i yn gydaelod ag ef ar y Cyngor, ond gwn ei fod yn cael y gair o fod yn wr cynnil ar y dreth. Yr wyf yn sicr na chytunem ein dau yno. Medr y gwr cynnil ambell dro golledu'r dref drwy'i gynhildeb. Nid awgrymaf iddo ef wneud ond dylasem dolli'r dyfodol am welliannau yfory. Ni ddisgwyliwn i'w ysbryd cynnil ceidwadol ef gydfynd a'm hysbryd aflonydd i. Beth bynnag am hynyna, yr oedd ei ddiddordeb yn ddwfn yn y dref a'i materion i'r diwedd. Ni ellid disgwyl yn amgen ac yntau wedi bod yn aelod o'r cyngor am dros chwarter canrif ac yn Faer y dref 1921—2. Yr oedd gweithiwr gynt, onid heddiw eto, dan anfantais, ac y mae'r Cyngor Tref yn Seisnigaidd. Ni chlywir odid air o Gymraeg yno oherwydd bod nifer o'r aelodau heb fedru Cymraeg, a'r Cymry fel arfer yn wasaidd i'r eithaf. Yn ôl ei allu a'i olau rhoes Dafydd Davies ddiwrnod da o waith i'r dref a'r Cyngor. Yma fel ymhobman arall yr oedd yn ffyddlon.

Weithian y mae'r efail, y cysegr a'r cyngor yn wag hebddo. Y mae'r gôf diwyd, y blaenor a'r athraw ffyddlon, y cyn-Faer a'r cynghorwr ffyddlon a chynnil wedi ei osod yn naear y fynwent a

garai mor fawr. Gadawodd briod oedrannus, un brawd a phlant i alaru ar ei ôl. Hebryngwyd ei weddillion i Frondeifi gan dyrfa luosog ynghyd a Maer y dref a'r Cynghorwyr fel dangoseg o'u parch tuag ato. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Aubrey Martin, Lewis Williams a Daniel Jones, Noddfa, a phregethodd ei weinidog ei bregeth goffa oddiar eiriau a welir yn yr Apocryffa y sydd yn portreadu crefftwr da,—"Y Gôf wrth yr eingon yn ystyried y gwaith haearn. . . . Y mae sŵn y morthwyl a'r eingon yn dyfod yn wastad i'w glustiau : ar wedd y dodrefnyn y mae'n wneuthur y mae'i lygaid yn wastad. Ei feddwl a rydd ef ar orffen ei waith, a'i ofal fydd am ei orffen yn hardd."

Y mae'r hen ffrind ffyddlon wedi talaru, a chredwn iddo orffen ei waith yn hardd. Heddwch i'w lwch gyda'i dadau yn naear mynwent Brondeifi.

T.O.W.

Cyrddau'r Hydref.

O WELD hanes y pwyllgor yn rhifyn Chwefror y deellais mai myfi oedd i ysgrifennu hanes Cyrddau Hydref i'r YMOFYNNYDD ac ymddiheuraf na buaswn wedi sylweddoli hynny yn gynt, ond ni ddaw henaint ei hunan. Ni rof y bai ar neb ; fe'i cymeraf fy hunan. Ag ystyried yr amgylchiadau anffafriol cafwyd Cyrddau hwylus yn Rhydygwin a'r gynulleidfa fel bob amser yn serchog a chroesawgar. Yn y Pwyllgor am un o'r gloch nid ymdrafodwyd ag unrhyw fater o bwys. Delio a'r manion yr oeddem—y mân us ac nid a phroblemau dyrys y dydd. Awgrymwyd delio a'r Alwad ond nid oedd neb ond odid yn barod. Ni wn pryd y down o'n difrawder a'n difaterwch gan ymddiddori yn y Mesur Addysg, ac Adroddiadau awgrymiadol a phwysig llawer Pwyllgor. Y mae'n bryd cael gwared ar y *routine* tragwyddol yma.

Awd drwy y rhannau arweiniol gan Weinidog Brondeifi a Gweinidog Tynygwndwn a phregethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D., E. O. Jenkins, Aubrey Martin, B.A. a J. Marles Thomas, M.A.

Nid oedd y Gynulleidfa yn lluosog a rhaid fydd ystyried y broblem deithio gan ofyn i'r eglwysi mwyaf canolog dderbyn y Cyrddau os ydym am raen arnynt. Hwyrach bod y tywydd a phopeth wedi lluddio y cyrddau ond yr oedd yma groeso a'r pleser o gyfarfod a hen ffrindiau.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd £1 oddiwrth Miss Evans, Llwynbedw, Alltyplaca, tuag at y Gronfa uchod.

Cynghrair y Gwragedd.

DYSGU'R PLANT BACH I WEDDIO.

Cyfeirir y sylwadau hyn at sylw aelodau'r adrannau mewn gobaith y byddant yn ddefnyddiol. Hwyrach y gellir eu gwneud yn destun ymgom a myfyrdod yng nghyfarfodydd y Cynghrair. O bryd i bryd bydd ysgrifau ar faterion o ddiddordeb i'r Cynghrair yn ymddangos dan y pennawd hwn yn Yr Ymofynnydd.—Y Golygydd.

YMDRINIWYD a'r testun hwn rai blynyddoedd yn ôl mewn pamffled wyth tudalen a gyhoeddwyd gan The British League of Unitarian and Other Liberal Christian Women. Yn ôl yr ysgrifennydd hwnnw, dywedir fod meddyliau cyntaf plant yn codi'n naturiol o'u diddordeb ym myd Natur. Gofynnant "Pwy a wnaeth y blodau?" a derbyniant yn rhwydd y syniad am Fod rhyfeddol ac anweledig. Nid mor rhwydd y creffir ar briodoleddau Tadoldeb, ond fel y mae'r plant yn prifio gellir amlygu iddynt ofal a meddwl cariadus Duw, ac y mae'r syniad sydd ganddynt am Dduw yn dyfnhau.

O'r dechrau dylid cymell y plant i siarad yn naturiol, ond yn barchus, â Duw yn eu geiriau eu hunain, gan adrodd wrtho eu llawenydd a'u trallod, ac felly dont i deimlo ei ofal cariadus drostynt. Ond gan amlaf bydd ar y plant angen ysbrydiaeth rhyw eiriau syml y gallant ddysgu eu caru trwy eu hadrodd yn fynych. Bydd cyfnewid o bryd i bryd yn beth doeth, ac yn wir gofyn y plant eu hunain am "weddi newydd."

Bydd yr awgrymiadau canlynol o ddefnydd i gynorthwyo'r plant i ddeall paham y maent yn gweddio. Byddant hefyd yn help i sicrhau na fydd iddynt adrodd eu gweddiau'n frysiog a'u meddyliau'n llawn o bethau eraill. Rhaid eu cynorthwyo i ddod at Dduw yn ewyllysgar ac yn ystyriol.

Yr ydym yn mynd i siarad â Duw. Ef yw ein Tad cariadlon, ac y mae yn ein caru ni tu hwnt i bob dychymyg.

Er na allwn ei weld ef, y mae bob amser yn agos ac yn barod i wrando ar bopeth a ddywedwn.

Pan fyddwn ni yn dda y mae ef yn llawenhau, ond pan fyddwn yn ddrwg ac yn angharedig y mae ef yn drist.

Ef sydd yn rhoi i ni bopeth sydd yn dda ac yn hyfryd. Am hynny dylem siarad ag ef, a diolch iddo, a gofyn iddo am gymryd gofal ohonom a'n cynorthwyo.

Awgrymir defnyddio'r gweddiau hyn :

BORE.

ANNWYL Dduw, diolchwn i ti am noson dawel. Helpa ni i fod yn dda drwy'r dydd. Amen.

HWYR.

ANNWYL Dduw, diolchwn i ti am ddiwrnod hapus iawn. Bydd yn ofalus ohonom i gyd, os gweli di fod yn dda, ac arwain ein tad annwyl yn ddiogel gartref. Helpa ni i fod yn dda, yn garedig, ac yn gariadus, a dyro i ni noson dawel. Amen.

DAD Nefol, diolchwn i ti am y byd prydferth ; am gartref a chariad rhieni ; ac am bopeth sy'n ein gwneud yn hapus. Helpa ni i fod yn dda bob amser. Amen.

DDUW mawr a doeth, diolchwn i ti am bopeth hyfryd sydd yn y byd—am borfa a'r blodau a'r heulwen, am gartref ac ysgol ac amser chware. Helpa ni i fod yn garedig tuag at bawb, ac yn bennaf tuag at y rhai sydd yn drist ac yn glaf. Bendithia hwy, bydd yn ofalus ohonynt i gyd, a bydd yn ofalus ohonom ninnau yn ein hymdrech i fod yn blant cariadus i ti. Amen.

HWYR.

EIN Duw a'n Tad nefol, sy'n gweld popeth a wnawn ag yn gwybod ein holl feddyliau, diolch i ti am dy ofal drosof drwy'r dydd hwn. Os gweli di yn dda, maddau i mi bob bai, a dyro gymorth i mi fyw yn well ac yn well bob dydd. Estyn dy ofal, os gweli di yn dda, dros fy nhad a'm mam, fy mrodyr a'm chwiorydd, a gwna fi yn fwy tebyg i Iesu Grist. Amen.

HWYR.

EIN Tad nefol, bendithia fi, a thaen dy ofal drosof y nos hon, a maddau bob drwg a wneuthum y dydd hwn. Fel yr wyf yn tyfu dymunaf dy foddio yn fwy ac yn fwy, a boddio eraill yn fwy na mi fy hun. Dymunaf fod yn ufudd i'm rhieni ac yn garedig iawn tuag at fy mrodyr a'm chwiorydd. Amen.

EIN Tad o'r nef, O dyro di
Dy help i fyw ein gweddi ni.

BENDITH (*wrth y bwrdd*).

HOLL roddion hardd dy gariad sydd
Yn deffro diolch yn ein cân ;
Dy fendith arnom fo bob dydd,
Rho inni help i fyw yn lân.

SONED.

I gofio Mrs. Tydvil M. Jones, Garthowen, Llandysul.

MEGIS y dêl y Mai i gwrr y coed,
A'i ffliwtiau'n rheibio ust y waun a'r cwm,
Hithau a roes ar randir tristwch trwm,
O wëoedd miwsig gwigoedd yr Erioed ;
Gwybu am rin Doethineb hên y llain,
A'r Caredigrwydd gwsg ar ffridd ddi-nam ;
Hi garodd gredo aur y banadl fflam,
A si p.derau rhwng y gwiail main ;
Cododd frenhiniaeth hyfryd yn y fro,
A'i sail o feini teg ei thraserch llwyr ;
Bonedd a symledd oedai yn ei thro,
Anturiodd fyw cyn dyfod traul yr hwyr ;
Clybu o gainc annosteg hud yr hedd,
Ni fynnai ffoi o grafanc gwâdd y bedd.

Llandysul. MYFYR EVANS.

Briwsion Mathias.

"GEMAU DOETHINEB."

Y MAE troi i mewn i lyfrgell fawr yn gwneud i mi deimlo'n fach bob amser. Clywais am lawer yn 'chwilio gem a chael gwmon,' ond os goddefir troi geiriau fel y gwneir yn y llyfr yr wyf am sôn amdano, dyma fi'r tro yma yn 'chwilio gwmon a chael gem.' Ie, Gemau Doethineb. Cyfaddefaf gyda chywilydd na chlywsom amdano erioed. Casglodd yr awdur Rees Prytherch (1605—1699) gannoedd o ymadroddion doethion ac fe'u ceir yn daclus yn y llyfr hwn. Cyfnod cythryblus o erlid oedd ei gyfnod ef, oherwydd bu'r gŵr yma o Landyfeiliog o dan ddirwy, mewn carchar, yn pregethu mewn ogof, am iddo fynegi ei wirioneddau. Rhoddaf yma ddetholiad byr o'i gasgliad gan obeithio y bydd rhywrai yn ddigon taer i geisio'r llyfr a'i ddarllen.

"Gwell yw'r galon heb eiriau, na geiriau heb galon yn y ddyletswydd o weddi.

Y mae llai poen dioddef na phechu, am y gall un ddioddef heb bechu ; ond ni all un bechu heb ddioddef.

Y mae llawer yn gwrando y gwirionedd, ond ychydig sy'n gwrando mewn gwirionedd.

Ni ddylai gŵr ganmol ei weithredoedd, ond gweithredoedd gŵr a ddylai ei ganmol ef.

Pechodau athrawon yw athrawon pechodau.

Gwneuthur drwg yw esgeuluso gwneuthur da.

Gorau gair yw gair o wir,
Gorau buchedd, buchedd bur.

Gwell yw i ni gael ein carcharu am wirionedd, na charcharu y gwirionedd.

Er heddwch ac er rhyfel
Gwenynen farw ni chasgl fêl.

Y mae llawer o ddynion yn mynd ar ôl Crist, ond ychydig sy'n canlyn Crist.

Llawer yw y rhai sydd yn cael eu sathru gan bechod, ond ychydig yw y rhai sydd yn sathru pechod.

Y mae'r saint yn teimlo'r gras na allant ei draethu, a rhagrithwyr yn traethu am y gras nad ydynt yn ei deimlo.

Mae pob ffordd dda yn hen, ond nid yw pob ffordd hen yn dda.

Yn y byd, ni bu, nid oes
A gaiff y goron, heb y groes.

Ap Cledlyn.

YR oedd Ap Cledlyn yn ddyn o bersonoliaeth anghyffredin. O'i weld unwaith ni anghofiai neb mohono'n rhwydd. Fe'm hatgoffâi ei wyneb o luniau a welswn o Voltaire neu ryw dramorwr o fardd byth a beunydd. Yr oedd yn gwisgo ei wallt hir gyda rhyw urddas arbennig.

Saer cerrig beddau oedd wrth ei alwedigaeth, ac fel y disgwyliem oddi wrth ddyn o'i bersonoliaeth ef, yr oedd yn grefftwr da. Gwelais dystysgrifau a thlysau ganddo, gwobrwyon a gawsai rywbryd yn y Genedlaethol ac eisteddfodau eraill am lunio a cherflunio. Ni wyddai pawb am y rhain oblegid yr oedd ganddo ystafell gudd yn ei weithdŷ a'i galon nas agorai ond i gyfeillion agos. Cefais i'r fraint o groesi trothwy honno unwaith neu ddwy.

Yn yr ystafell yma yr oedd pryddest a phennill a nifer o gadeiriau eisteddfod, a mwy na hynny, yma yr oedd llawer meddwl dwys a sylw pigog.

Ond fe adwaenwn i ef, nid fel bardd yn arbennig ond fel "rhywun" am gwnaeth i deimlo'n gartrefol pan fentrais i mewn i Ysgol Sul Pantydefaid am y tro cyntaf. A phe buasai gofyn imi ddisgrifio ei gymeriad mewn geiriau byr, buaswn yn ei alw yn "DDYN Y PLANT." Pan oedd "Jinks" yn athro ac arolygydd yr Ysgol Sul, nid gwaith eu gyrru yno oedd gan rieni, ond gwaith eu hatal rhag mynd yn rhy gynnar! Yr oedd ganddo'r ddawn brin honno sy'n diddori plant a gwneud y gwrthun yn hoffus. Cofiaf am yn agos i bedwar-ugain yn yr Ysgol yn gyson yn y cyfnod hwnnw, ac yn ddiamau i'm tyb i, Jinks oedd y "magnet." Erddo y bûm i ac eraill yn llafurio wrth yr arholiadau, a braint ei ganmol ef oedd ein gwobr fwyaf.

Trwyddo y deuthum i ymwybod â gweriniaeth rydd, Keir Hardie, Blatchford a Corelli, neges a ddysgodd ef tra bu yn Ne Cymru. Dangosodd imi werth 'adrodd' ac adrodd yn iawn, ac yn sicr nid diwerth oedd barn gŵr a fu yn athro i un o'r adroddwyr mwyaf a welodd Cymru, sef "Llaeth-ferch."

Ni chredaf mewn seboni neb, na marw na byw, ac nid yw'r gwerthfawrogiad uchod ond teyrnged digon anheilwng i gofio'r ddyled fawr sydd arnaf i ac eraill i Ddafydd Jenkins a gwŷr tebyg iddo, a roes ystyr a chyfeiriad i lwybrau bore oes.

Bu'n ddiddig ym mhob digwydd,—hyd ei oes
Bu'n dad caredigrwydd,
Mewn tristwch rhoddwch yn rhwydd
Ddagrau ar foneddigrwydd."—(*Gwenallt*).

D.J.D.

Ffordd Newydd.

Gan Mrs. A. Rees, Llanbedr (gynt o Llanelli).

Ryw flwyddyn neu ragor yn ôl, clywid llawer o sôn am ffordd newydd yn cael ei thorri trwy Ganada ac Alaska i'r Behring Strait yn y Gorllewin. Bu'r teimlad yn gyffredin yn y wlad am hir amser fod angen ffordd newydd tua'r môr, ond methai'r bobl â gweld y buasai'r fath orchwyl yn bosibl. Dywedai'r pesimistiaid mai ffolineb a fyddai mentro ar y fath orchest oherwydd ansawdd y tir. Byddai'n rhaid torri trwy greigiau, a mynyddoedd, trwy gorsydd ac afonydd, ac yn yr haf byddai'n rhaid dygymod a *mosquitoes*. Ar y llaw arall, dywedai'r optimistiaid y buasai'r gorchwyl yn bosibl gyda digon o wroldeb a chydweithrediad. Yr optimistiaid a orfu.

Dechreuwyd ar y ffordd newydd yn wrol ; fe'i gorffennwyd, ac fe'i hagorwyd er mawr foddhad a hwylustod i'r wlad yn gyffredinol. Profodd yr amhosibl yn bosibl. Ffordd Newydd ! Pa faint ohonom ni yng Nghymru sy'n teimlo angen am ffordd newydd heddiw ? Y mae angen yn ddiau. I ba gyfeiriad, tybed ? Tua'r mor ? Choelia'i fawr. Tua'r Mynydd ? Na, y mae llwybrau'r mynydd yn ddigon deniadol. Tua'r Sinema a'r ddawns ? Na, y mae'r ffordd i'r Sinema yn hollol foddhaol, cedwir y llwybrau i'r ddawns yn goch gan draed y llu pleser-geiswyr.

Beth am y ffordd a arwain i'r Capel ? Nid yw mor goch a llwybrau'r darlundŷ. Gwelir ambell dusw o laswellt yn ei britho. Ys dywed y Sais, y mae wedi mynd "*out of date*." Dyma lle y mae angen ffordd newydd. Ymha ddull y torrir hi ? Pwy a rydd i ni awgrym ?

Dywed y pesimistiaid crefyddol mai ofer a fydd meddwl am dorri tir newydd, am fod afonydd pleserau yn rhedeg mor gryf, a chorsydd aflendid a drygioni mor anodd eu dihysbyddu, a chreigiau difaterwch a difrawder mor galed i'w hollti. Ond y mae gennym ninnau, fel yng Nghanada, optimistiaid yn y gwersyll, a diolch amdanynt. Trwyddynt hwy y daw'r diwygiad, pan ddêl.

Mwy pleserus ydyw darllain rhywbeth calonogol na rhyw stwff digalon. Er hynny, ni fedrwn anwybyddu ffeithiau.

Blin ydyw gweld y dirywiad sydd ym myd crefydd yn ystod y naw-mlynedd-ar-hugain diwethaf yng Ngheredigion. Trist ydyw gweld plant bach yn dod i'r Ysgol Sul, a dim athrawon i edrych ar eu hôl. Pan oeddem ni sydd yn awr mewn oedran, yn blant, cawsom ein bendithio ag athrawon goleuedig a chydwybodol i'n dysgu yn yr Ysgol Sul. Tybed a oes un ohonom a ddywed na fu hyn yn help iddo ar daith bywyd. Gresyn na chaiff y plant bach ydd wrth ein traed ninnau yr un fantais. Nid drwg o beth a

fyddai i bob un ohonom ofyn iddo'i hun o ddifrif, fel hyn—A ydyw pregeth ac Ysgol Sul yn werth eu cefnogi ? Os nad ydynt, bydded i ni gau drysau'r capeli unwaith ac am byth. Os ydynt, yna cadwer hwy yn agored. Cofier, y mae cyfrifoldeb pob aelod yn gyfartal yn y mater.

Beth ddywedai ein milwyr, sydd yn dioddef y fath galedi ar faes y gâd, er mwyn diogelu ein cartrefi a'n heglwysi rhag brad y gelyn, ped dychwelent i weld drysau ein heglwysi wedi eu cau. Oni fyddent yn siomedig ? Pa werth ydyw iddynt aberthu eu bywydau dros wlad sy'n dirywio'n wirfoddol ?

Gwir fod arnom angen am arweiniad yn y cyfeiriad yma. Dyna gyfrifoldeb ein gweinidogion. Edrychwn i fyny atynt hwy am arweiniad mewn gweithgarwch, sobrwydd ac unplygrwydd.

I ni, y mae'r pulpud yn gysegredig. Ond nid yw mor gysegredig yng ngolwg y bobl ieuainc, modern yma. Gwyn fyd yr hwn, boed weinidog neu leygwr, a ddyfeisia ffordd newydd i'w denu i'r cysegr a'r Ysgol Sul fel yr hen ffyddloniaid a fu'n dwr i achos crefydd mewn gwlad a thref, ond sydd erbyn hyn wedi mynd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr a choron duwioldeb ar eu pennau.

Priodasau.

Yng Nghapel Caeronnen, ar y 27 o Ragfyr, 1943, unwyd mewn glân briodas Miss LIZZIE DAVIES o Lwynifan a JAMES WILLIAMS o Odre'r Garth, Llanddewibrefi. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, ym mhresenoldeb Mr. Edgar Williams y Cofrestrydd. Hir oes ac iechyd a'u dilyno.

Rhagfyr 28, 1943, unwyd mewn glân briodas, CISSIE EVANS unig ferch y diweddar David Evans, Cilgell-isaf a Mrs. Evans, Coedmor Hall, Llanbedr, a Mr. FRED SAMBROOK FRANCIS o Aberteifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, ym mhresenoldeb Mr. Edgar Williams y Cofrestrydd. Bydded iddynt oes o ddedwyddwch ar ei byd.

Ionawr 6, yn Eglwys y Plwy, Llansamlet, RICHARD CLAYTON SPIERS (yn awr, Corporal yn yr R.A.F.) a SELINA ANNE JONES (yn awr, W.R.N.S.), merch hynaf Mr. a Mrs. T. Jones, Dolgranod, Graig Road, Trebanos; y Parchn. W. Francis a Mr. Ball yn gwasanaethu. Yr oedd y Parch. J. D. Jones hefyd yn bresennol.

Chwefror 4, yng Nghapel Galltyplaca, THOMAS LLEWELYN DAVIES, Llwynifan, Cellan a MARY GWENLLIAN JONES, Pantrhyn, Llanbedr. Gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen.

Chwefror 19, yng Nghapel Penybont, Llandysul, JOHN WILLIAMS, mab hynaf Mr. a Mrs. David Williams, Tynant, Capel Dewi, Llandysul a GWENLLIAN WILLIAMS, merch Mr. a Mrs. Williams, Brynrallt, Llanfihangel-ar-Arth. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Henry Jones, Abertawe (ewythr i'r briodasferch) ; Richard Morris ; a E. O. Jenkins.

Marwgofion.

Rhagfyr 16, 1943 yn 72 mlwydd oed bu farw Mrs. ANN DAVIES, Gwrdy, Llanybydder, lle y bu fyw y blynyddoedd diwethaf o'i bywyd gyda'i chwaer a'i brawd ynghyfraith, a chafodd oddiwrthynt, yn nyddiau ei heiddilwch, ofal cariadus. Ar ôl blynyddoedd yn Nyffryn Nedd dychwelodd hi a'i phrid, ac yntau wedi ei blaenu ers rhai blynyddoedd bellach, i hen fro eu mebyd.

Yr oedd hyd y diwedd yn deyrngar i Alltyplaca ac yn ofalus i gyflawni ei dyletswyddau i'r tŷ, ac yno y dydd Llun dilynol y gosodwyd y rhan farwol ohoni, ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, yn gwasanaethu.

Yng nghartref ei ferch, The Post Office, Trebanos ar Ionawr 18, bu farw LEWIS BOWEN, Bella Vista, Trebanos yn 86 mlwydd oed. Cymharol fyr y bu ei gystudd er fod cynheddfau'r corff yn pallu ers tro, ac yn ffyddiog a hyderus edrychai ymlaen at "ben y daith." Yn wir, henaint teg a'i cymrodd oddiwrthym, a thebyg oedd ei farw i'r ddeilen grin yn yr hydref yn syrthio i'r llawr. Dyn o gorff cadarn a hoew ar ei droed ydoedd. Gwerinwr syml yn cerdded yn ddirodres, ac yn hoffi hiwmor iach. Gweithiodd yn y lofa, ac yn ei seibiant ei hoffter oedd gwneuthur ffon. Un felly ydoedd, a hyd iddo golli ei glyw oddifewn i dair blynedd i'w farw ef oedd un o'r ffyddlonaf ymhlith y ffyddloniaid yng Nghapel y Graig. Collodd ei briod ddeuddeg mlynedd yn ôl. Codasant deulu i safleoedd anrhydeddus yn yr ardal, a chawsant oll gyfleusterau addysg. Collwyd un mab, athro yn ysgol Trebanos, o effeithiau'r rhyfel ddiwethaf, ac y mae un arall ar yr aelwyd yn cario yn ei gorff glwyfau'r brwydro. Gyda'r ddau fab a'r ddwy ferch sydd ar ôl y mae ein cydymdeimlad dyfnaf. Claddwyd ym mynwent Gellionnen y dydd Sadwrn dilynol, Mr. John Hopkin a'r Parchn. J. D. Jones a Dl. John yn gwasanaethu.

Wedi cystudd byr bu farw EDITH MILDRED HOWELLS (ganwyd THOMAS yn Ysbyty Abertawe, ar Ionawr 23, yn 35 mlwydd oed. Ni wyddys ei dolur, ond ni ellir llai na meddwl mai hiraeth ar ôl ei phriod a laddwyd yn Sicily chwe mis yn gynharach oedd yr achos. Merch fwynaidd a thawel oedd Mildred, yn berchen ar lais canu hyfryd iawn, ac erys coffa amdani'n hir yng nghôr Capel y Graig, Trebanos. Rhai blynyddoedd yn ôl aeth gyda'r teulu i fyw i Gaerdydd, a bu'n aelod ffyddlon o'r gynulleidfa Undodaidd yno. Yn ddiweddar daeth hi a'i mham i gartrefu gyda'i chwaer yn 6, Castle Street, Oystermouth. Claddwyd ym mynwent Gellionnen ar Ionawr 27, y Parchn. J. H. Coram Davies a J. D. Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir yn fawr a'i mham, a'i chwiorydd a'i brodyr yn eu galar.

Ionawr 17, bu farw DAVID GRIFFITHS, Swansea Road, Trebanos yn 52 mlwydd oed. Dyn diymhongar, tawel ydoedd, a hyd i'w iechyd fethu gweithiodd waith saer gyda'r Pontardawe Gas Company. O ardal Knighton yr oedd ei gysylltiadau teuluol, ac yr oedd yr iaith yn rhwystr iddo ymuno a'r gynulleidfa yng Nghapel y Graig, lle y mae ei briod a'i ferch yn aelodau. Er hynny estynnodd lawer cymwynas i'r capel pan oedd angen. Bu'n clafychu'n hir, a phan fu farw yr oedd dan driniaeth yn y Morriston Emergency Hospital. Cydymdeimlir yn fawr a'r weddw a'i ferch. Claddwyd ym mynwent gyhoeddus Coedgwilym, y dydd Iau dilynol, y Parch. J. D. Jones yn gwasanaethu.

Ionawr 21, 1944, yn 85 mlw dd oed bu farw SARAH EVANS, gynt o'r Gwastod, ond ers tro bellach yn ymgartrefu yn Neuadd-fach, Cwmanne, Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers tro, a theimlai bwys y blynyddoedd ac ergydion caled y blynyddoedd diwethaf yma yn drwm. Hannai o hen deulu cyfarwydd a pharchus yng Nghellan, ac yr oedd wedi byw yn Nhyhywel dro gyda'i brawd a'i chwiorydd cyn iddynt ganu'n iach a'i gadael yn unig. Yr oedd

o gymeriad tawel ac heddychlon, fel y teulu yn gyffredin, a chymerai ddiddordeb yn ei heglwys. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yng Nghaeronnen—yr olaf o hen deulu annwyl iawn. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog.

Ionawr 22, 1944, bu farw RACHEL JENKINS, Fferm Caedabowen, Llanybydder yn 68 mlwydd oed. Chwaer ydoedd i Mrs. Davies, Y Gwrdy, a'i blaenodd rhyw fis yng nghynt. Yn y Glyn, Drefach, Llanwenog yr oedd yn byw hyd yn ddiweddar, yn briod i'r diweddar Gruffydd Jenkins, y gof, un o nifer o dylwyth wrth y grefft honno yn y cylch.

Bu Mrs. Jenkins yn ffaeledig iawn am flynyddoedd, ond daliodd yn rhyfedd o siriol drwy'r cyfan. Cafodd bob gofal gan ei phlant, a chan ei merch ieuengaf, Ray, yn arbennig, hyd y diwedd. Y dydd Mercher dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel y Bryn, gwasanaethwyd gan ei gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. S. Morgan, Llanwenog. Gadawodd fab a'i deulu, a thair merch a'u teuluoedd mewn hiraeth ar ei hôl.

Bu JOHN DAVIES, priod Anne Davies, Minafon, Llanwnen, farw ar y 25ain o Ionawr. Bu'n wael iawn ers tro, ac ni fu ei iechyd yn dda ers blynyddau. Aelod ydoedd yn Soar, Llanbedr. Claddwyd ef y dydd Gwener wedi hynny yng Nghapel-y-Groes. Yn absenoldeb y Parch. T. Eurig Davies, oherwydd gwaeledd, cymerwyd ei le gan y Parch. D. Williams, Y Wenllys, yn y tŷ ac yn y capel, ac fe'i cynorthwywyd ef gan y Parchn. S. E. Bowen, S. Morgan, ac A. J. Martin.

Yn annisgwyliadwy iawn, bu farw HANNAH TYDVIL MAIR JONES, Garthowen, Llandysul, dydd Mawrth, Chwefror 1, yn 63 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion marwol y Gwener canlynol ym mynwent Pantydefaid; anghyoedd oedd yr angladd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rhydderch; yn y capel gan ei gweinidog; ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams. Ail ferch y diweddar Barch. William James, B.A. ydoedd yr ymadawedig, a gwaddolwyd hi yn gyfoethog â galluoedd meddyliol oeddynt mor amlwg yn ei thad talentog. Fel efe, bu'n myfyrio'n gyson drwy ei hoes, ac ymhyfrydai mewn astudiaeth o hufen llenyddiaeth—clasurol a diweddar. Gwnaeth waith da dros addysg fel *Governor* ar yr Ysgol Sir yn Llandysul; ond fel aelod o Bwyllgor y *Guardians*, Glannau Teifi, ac fel Cadeirydd o'r cyfryw bu yn eiddgar i wella cyflwr y tlawd a'r anghenus, a bu yn foddion i godi safon hapusrwydd a chysur gweiniaid yr ardal. Yn ei chapel ym Mantydefaid bu yn ffyddlon drwy'r blynyddoedd ac ni welwyd byth o'i sedd yn wag os yn iach. Dynes o dymer dyner, a natur artistig, carai'r prydferth ym mhob cyfeiriad. 'Roedd Garthowen yn adlewyrchu chwaeth yr *artist* ymhob cwr o honno a threuliodd arian ac amser i wneud ei haddoldy yn deml brydferth i Dduw.

Mae ardal gyfan yn hiraethu ar ei hôl, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwfn i'w phriod a'i mab yn eu galar a'u siomedigaeth dwys.

So He calls them in from their labour,
'Ere the shadows around them creep,
And silently watching o'er them,
"He giveth His loved ones sleep."

Blin yw gorfod cofnodi marwolaeth yn Ysbyty Aberystwyth, MARY HANNAH JONES, Glanyrafon, Llandysul, Chwefror 9, yn 50 mlwydd oed. Dydd ei hangladd oedd Llun, Chwefror 14, ym mynwent Bwlchyfadfa. Yn y tŷ gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r Parch. W. D. Davies, ficer Llanddewibrefi; yn y capel pregethwyd gan ei gweinidog y Parch. E. Gwilym Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. S. E. Bowen a'r Parch. T. S. Davies, Rheithor Bangor Teifi, ac ar lan y bedd gweddiwyd gan y Parch. W. M. Jenkins, ciwrad y plwyf. Gwraig lân a phrydferth ei chymeriad oedd ein chwaer ymadawedig, gweithgar a gonest yn ei gwaith, mam dda a chymydoges garedig. Cydymdeimlwn yn fawr a'r fam oedrannus ac a'r mab a'r ferch.

"Pa bethau bynnag sydd bur . . . meddyliwch am y pethau hyn."

Chwefror 2, ar ôl ychydig gystudd DAVID WALTER JENKINS, Stonecutter, yn 67 mlwydd oed. Mab ydoedd i Thomas Jenkins a'i briod, gynt o Gorsvilla, Gorsgoch. Collodd ei dad yn gynnar yn ei fywyd, ond bu ei fam fyw hyd n gymharol ddiweddar. Y côf cyntaf sydd gennym amdano yw yng ngwasanaeth y diweddar Barch. T. Thomas, Green Park. Wedi hynny dysgodd grefft stonecutter, ac fel y cyfryw bu'n gweithio ym Mrynaman, Ystalyfera, Tregaron, ac yna am lawer blwyddyn mewn cysylltiad â Mr. David Davies, Sychdy, ym Mhrengwyn, Llandysul. Cymerai ddiddordeb yn ei grefft, ac ystyrid ef yn wir fedrus gyda'r gwaith o gerfio llythrennau ar gerrig. Drwy ei grefft daeth yn adnabyddus i gylch eang. Bu'n ffyddlon iawn yn yr Ysgol Sul ym Mhantydefaid yn cnwedig gyda dosparthiadau o blant, a meddyliai'r plant y byd ohono.

Am flynyddoedd gwasanaethodd ar Gyngor Dosparth Dyffryn Teifi, a bu'n gadeirydd yn ei dro. Collodd ei iechyd flynyddoedd yn ôl, ac aeth y gwaith yn gryn faich iddo. Agorodd ei nai (mab ei ddiweddar chwaer) a'i briod, Mr. a Mrs. Lyn Davies, Teigncot, Baglan Road, Port Talbot eu drws iddo, ac yno y treuliodd ei fisoedd olaf. Yno hefyd y bu farw. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Capelybryn, Cwrtnewydd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, S. E. Bowen a W. Lloyd, Burry Port.

Er mawr siom i gylch eang o berthynasau a chyfeillion bu farw yn ddisyfyd iawn y brawd annwyl JOHN PENRY LEWIS, Camden Court, Llandysul bore dydd Llun, Chwefror 21 yn 60 mlwydd oed. Daeth torf fawr o'i edmygwyr ynghyd i gapel Pantydefaid dydd Iau, Chwefror 24 i ddangos ei parch a'i serch i'r ymadawedig. Llanwai Penry—dyna'r enw carai ei gyfeillion roddi iddo—y swydd bwysig o *Divisional Road Surveyor* dan Gyngor Sir Aberteifi ; 'roedd yn feistr ar ei waith a hoff iawn oedd ei weithwyr ohono. Clywyd un o'r rhain yn dweud ar ddydd ei angladd—"Pwy bynnag fydd ein meistr newydd, ni fydd gystal a Phenry Lewis." Dyn tyner a chymwynasgar ' full of the milk of human kindness ' oedd y cyfaill, yn barod i bob galwad ar gynorthwy a chydymdeimlad. 'Roedd yn fawr ei barch yn Llandysul am ei fod yn flaenllaw gyda phob achos da, ym myd cerdd, ym myd y ddrama ac ymhob ymdrech i wella cymdeithas. Bu yn ffyddlon hyd y diwedd i'w eglwys yn y Graig, Llandysul a gwelir ei eisiau yno yn fawr.

Yn y tŷ gwasanaethwyd gan y Parch. Myfyr Evans a'r Parch. R. Morris, pregethwyd yn y capel gan ei weinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. A. Williams, ac ar lan y bedd gweddiwyd gan y Parch. D. Rhydderch, B.A. Cydymdeimlwn oll a'r weddw, y ferch a'r mab a'r holl deulu.

Hiraethwn wrth ffarwelio a'r fath gymeriad swynol a dywedwn : ' A Duw oedd gydag Ef.'

Chwefror 26, JOHNNIE EVANS, Tyrhos, Ceinewydd yn 47 mlwydd oed, gan adael priod, tair merch a pherthynasau eraill i wylo ei golli. Cofiwn yn dda amdano'n blentyn a llanc ieuanc yng Nghapel-y-Fadfa a Thalgarreg, canys fe'i magwyd gan Sarah Evans, No. o, fel ei gelwid, a chyn hynny o Gefenberth, Bwlch-y-Fadfa. Er wedi ymadael a'r ardal ers blynyddoedd lawer, cadwodd ei serch at Gapel-y-Fadfa'n iraidd hyd y diwedd, a dymunai gael gweinidog y lle i gymryd rhan yng ngwasanaeth ei angladd. Yr oedd ganddo gartref cysurus yn Nhyrhos, a thra gallodd gwnaeth y gorau o'r fferm. Rhoddodd addysg dda i'w ferched ac ymhyfrydai'n eu llwyddiant.

Bu'n gwaelu am chwe mlynedd, ac yn Iechydfa Tregaron bu'n chwilio am adferiad iechyd dair gwaith. Drwy'r cwbl cadwodd heb suro na chwerwi.

Claddwyd y dydd Mercher dilynnol yn Llwyncelyn, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. J. A. Jarman, Maenygroes ; D. A. Thomas, Ceinewydd ; D. R. Thomas, Llwyncelyn ; J. O. Jones, Pencae ; a E. O. Jenkins.

DAVID RHOSLWYN DAVIES. Tuag adeg y Nadolig diwethaf collodd y mudiad Undodaidd un o'r gweinidogion ffyddlonaf ac anwylaf pan fu farw Rhoslwyn yn 62 mlwydd oed wedi llafurio deugain mlynedd yn y weinidogaeth. Paratowyd ef i'r gwaith yn yr Home Missionary College, Manceinion (1899—1903). Dywed y Parch. Fred Cottier (Gorton) a bregethodd ar ddydd ei angladd iddo gyflawni i raddau helaeth bwrpas sylfaenol y coleg, fel y mynegir y pwrpas hwnnw yng ngeiriau un o'i sefydlwyr, Dr. J. R. Beard, "Yr wyf yn sicr fod nifer-oedd o bobl yn barod i dderbyn Cristnogaeth burach ; yr wyf hefyd yn sicr na chaent gymorth mor barod oddiwrth unrhyw ddosbarth o ddynion na'r Undodiaid . . . ; cerddwn rhagom yn erbyn anghywirdeb, ofergoeliaeth, pechod a thrueni ; cerddwn rhagom yn y bwriad o osod crefydd ein Harglwydd Iesu Grist yn lle cyffesion diwinyddol yr ysgolion ac anghrediniaeth y byd ; cerddwn rhagom fel Undodiaid proffesedig, yn gobeithio dan fendith Duw sefydlu, adnewyddu, a chyflenwi eglwysi Undodaidd." Yn yr ysbryd hwn yr aeth Rhoslwyn Davies i'r weinidogaeth, a bu'n ffyddlon i'w adduned a'i fwriad.

Wedi ymadael a'r coleg bu'n weinidog am bedair blynedd yn y Rhondda. Yn 1907 croesodd y ffin o Gymru, a bu'n fawr ei barch fel gweinidog Eglwys Rawtenstall yn Rossendale am saith mlynedd. Wedyn symudodd i Eglwys Blackley, Manceinion. Yno am un mlynedd ar ddeg gwerthfawrogwyd ei wasanaeth dyfal. Yn 1924 symudodd yn nes i ganol Manceinion pan dderbyniodd yr alwad i Renshaw Street Mission. Am bedair blynedd ar bymtheg bu'n gwasanaethu yno, yn cynyddu yn ei barch ac yn anwyldeb ei bobl.

Dyn syml, cyfeillgar ydoedd, yn feddiannol ar rinweddau addas iawn i'w waith, ac i bobl ei ofal yr oedd mewn gwirionedd yn "Fugail Da."

Yr oedd y dorf fawr a ddaeth ynghyd ddydd ei angladd ar Ionawr 3, yn dystiolaeth o'i barch. Gweinyddwyd yn y capel ac yn y Crematorium gan y Parch. Fred Cottier.

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, am 4.15 p.m. ar y Sul cyntaf yn y mis. OEDFA IONAWR—Hapus gweled a chlywed Mr. William Davies, B.A., unwaith eto. Rhoes inni bregeth, yn llawn o swyn a doethineb, ar ystyr gweddi, ac yntau'n siarad mewn Cymraeg eglur a chywir er ei fod wedi ei eni a'i fagu yn Lloegr. Dymunwn iddo bob llwydd a dedwyddwch ar ei yrfa ; sicr y bydd yn ddylanwad pwysig ym mhulpud y Methodistiaid yn y dyfodol.

Pleser mawr i bawb oedd gweled a chlywed yr organ. Cyn dechrau'r gwasanaeth derbyniodd ein Cadeirydd yr offeryn ar ran yr eglwys, gan ddiolch i'r teulu caredig a'i rhoes. Pleser hefyd oedd gweled ail-gychwyn yr ysgol gân ar ôl tê ; a gobeithio y bydd inni barhau yn yr hen arfer fuddiol hon.

Trefn y dyfodol—

Ebrill—Y Parch. Tyssul Davies, B.A.
Mai—Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D.
Mehefin—Y Parch. T. O. Jones.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Ar nos Sul, Rhagfyr 26, 1943 cafwyd Organ Recital, Mr. I. E. Hopkin, B.Sc., organydd y gynulleidfa, wrth yr offeryn. Fel y gwna bob amser cododd Mr. Hopkin ni i'r uchelderau. Ymfalchïwn yn ei wasanaeth. Yn ei gynorthwyo yr oedd nifer o gantorion da, a chafwyd adroddiadau gan Mrs. D. J. Jones. Rhannwyd yr elw rhwng Cronfa Cysuron y gynulleidfa a'r Hibbert Houses.

Ar Ionawr 3, cynhaliodd yr adran o Cynghrair y Gwragedd Sosial i ddathlu'r flwyddyn newydd, a chafwyd amser dymunol.

Ar Ionawr 15, cafodd deiliaid yr Ysgol Sul ŵyl o dê, a gŵyl ragorol ydoedd, y byrddau'n llawn a llawer o fwyniant yn dilyn.

RHYDYGWIN.—Cynhaliwyd yn Festri y Capel ein Sosial flynyddol hwyr Gwener, Ionor 28. Daeth mwy nag arferol ynghyd, ac yr oedd yr ystafell yn rhy fychan y tro hwn. I ddechrau caed tê. Yr oedd y byrddau wedi eu llwytho a danteithion o'r fath oreu. Dilynwyd hyn gan y gorchwyl o gyflwyno gwobrau i blant yr Ysgol Sul. Gwnaed hyn gan Miss Jones, Gwernfeilig a Miss Jones, Aldergate. Rhoddwyd copïau o'r *Perlau Moliant* gan Mr. Davies, Penbrynmawr, fel gwobrau neilltuol i'r ffyddlonaf ar hyd y flwyddyn gyda'r Ysgol Sul, a chafwyd gwobr neilltuol gan Mr. Davies, M.R.C.V.S., Caerwilym. Llywyddwyd yn y Cyngerdd a ddilynodd gan y Gweinidog, a bu y plant a phobl ieuainc yn adrodd, canu, a dadleuon. Yna caed cystadleuaethau mewn ateb cwestiynau a siarad ar destunau. Dangoswyd llawer o wybodaeth gyffredinol. Ar ôl hynny caed areithiau gan Mr. Evans, Brynog View, Mr. Rowlands, Ystrad House a Mr. D. Davies, Brynog. Ar ôl diolch i gyfrannwyr y wledd, ymadawodd pawb gan deimlo iddynt gael mwynhad mawr.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cwrdd blynyddol eglwys fechan Heol Newydd y Sul cyntaf o Chwefror ar ôl gwasanaeth y bore. Cymrwyd y gadair gan Mr. A. T. Grindley, cadeirydd y gynulleidfa. Wedi darllen a chadarnhau cofnodion y cwrdd blynyddol diwetha darllenwyd adroddiad y pwyllgor am y flwyddyn 1943. Rhydd hwn gipolwg ar weithrediada'r eglwys yn ystod y flwyddyn a dengys fod ei sefyllfa ar y cyfan yn ddigon ffafriol. Wedyn cymrwyd adroddiad y trysorydd ac y mae hwn hefyd yn foddhaol, yn wir, yn fwy bodohaol na'r un llynedd. Ail-etholwyd holl swyddogion yr eglwys ac hefyd holl aelodau'r pwyllgor sydd eto yma. Mae rhai ohonynt wedi gadael y dref ac felly rhaid fu eu gadael allan y tro hwn, ond i wneud i fyny i ryw raddau am eu colli dewisiwyd dau aelod newydd ar y pwyllgor o blith y newydd-ddyfodiaid. Ail-etholwyd Mrs. J. E. Jones a'r ysgrifennydd yn gynrychiolwyr y gynulleidfa ar bwyllgor Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Talwyd y diolchiadau arferol i'r Gymdeithas, ac hefyd i'r Gymdeithas Gyffredinol a'r Gronfa Gynorthwyol ac i amryw unigolion am eu cymorth ariannol yn ystod y flwyddyn.

CILIAU AERON.—Yn Festri'r Capel, nos Iau, Chwefror 17, cynhaliwyd y Sosial flynyddol. Rhoddwyr y tê y tro hwn oedd Mrs. Hughes, Aeron Stores, a Mrs. Davies, Greengrove—dwy ddynes nodedig am fod yn garedig a chroesawgar. Cadwasant eu cymeriad a chafwyd ganddynt wledd nad oedd yn bosibl cael ei gwell. Dilynwyd gan gyngerdd a gyfyngwyd i'r plant, a llywyddwyd gan Mr. Elias, C.M., Parc. Paratodd raglen gystadleuol, a bu'r bobl ieuainc yn cystadlu ar bob eitem. Diolchwyd i'r gwragedd am y tê yn wresog iawn gan Dr. Evans, Parc, ac eiliwyd gan y Parch. Lewis Williams. Siaradwyd ym mhellach gan yr Henadur Simon Davies, Y.H., Greengrove, ac anogodd y bobl ieuainc i fanteisio ar gyfleusterau heddiw, gan eu rhybuddio mai drwy ymdrech y mae llwyddo.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliodd aelodau'r adran o Gynghrair y Gwragedd eu cwrdd blynyddol ar brynhawn Sul, Chwefror 20. Cymerwyd y gwasanaeth gan Miss R. M. Evans, Ffynnon Fair, a chafwyd gwasanaeth o naws hyfryd iawn a chynulleidfa dda. Cymerwyd casgliad at Drysorfa'r Myfyrwyr.

Y GLUST.

Agen cern fel genau corned,—lafarol
Lawforwyn y clywed ;
A ddeil hi, i'r meddwl hêd
I'w storio a'i ystyried.

ISLAN.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.